# Adroddiad Arolygu

**Cylch Chwarae Bumble Bees**

**Ysgol Pendref**
**Safle Sylfaen**
**Gwaenynog Road**
**Dinbych**
**LL16 3RU**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

27/09/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cylch Chwarae Bumble Bees

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br><br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Cylch Chwarae Bumble Bees |
| Lleoedd cofrestredig | 19 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Nodi â Llaw] Hwn oedd yr arolygiad cyntaf ers ailgofrestru |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nodi â Llaw] Ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg, ond mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn ddysgwyr gweithgar a chwilfrydig sy'n mwynhau gwneud dewisiadau am yr eitemau y maent eisiau chwarae â nhw. Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r unigolion sy'n gofalu amdanynt yn dda. Caiff safbwyntiau a diddordebau'r plant eu gwerthfawrogi a gwrandewir arnynt. Maent yn hapus yn gadael eu rhieni gan fod trefn gyson o ddydd i ddydd yn cefnogi eu chwarae a'u dysgu. Mae'r plant yn meithrin eu sgiliau annibyniaeth yn dda.

Mae'r staff yn garedig ac yn ymateb yn gyson i'r plant; maent yn gwrando ar ddewisiadau a cheisiadau'r plant ac yn eu parchu. Mae ganddynt ymagwedd gynnes a chyfeillgar iawn ac maent yn aml yn canmol y plant am eu hymdrechion a'u cyflawniadau. Mae'r gweithgareddau wedi'u trefnu'n dda, a chaiff y plant eu hannog i ddilyn eu diddordebau eu hunain. Mae'r staff yn hyrwyddo arferion iach ac yn meithrin amrywiaeth o sgiliau yn effeithiol.

Mae'r amgylchedd yn ddiogel, yn lân ac yn groesawgar. Mae'r ardaloedd chwarae a dysgu wedi'u gosod mewn ffordd ddeniadol. Mae amrywiaeth dda o adnoddau a theganau y gall y plant eu harchwilio fel y mynnont gan wneud eu dewisiadau eu hunain, sy'n annog annibyniaeth. Mae cyfleoedd da i'r plant ymarfer defnyddio eu synhwyrau.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rheoli'r gwasanaeth yn effeithiol. Maent wedi meithrin partneriaethau cadarnhaol â'r rhieni sy'n cael eu croesawu i'r lleoliad ac yn cael amser i drafod eu plant. Mae'r gydberthynas â'r ysgol yn rhagorol ac mae aelodau o staff yr ysgol yn ymweld â'r lleoliad yn rheolaidd. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod y plant yn gyfarwydd â staff yr ysgol i'w paratoi ar gyfer symud ymlaen i'r dosbarth meithrin.

## Llesiant — Da

Mae'r plant yn siarad ac yn mynegi eu hunain yn dda a chaiff eu hanghenion a'u dewisiadau eu hystyried. Mae'r plant yn brysur ac yn mwynhau dewis yr eitemau yr hoffent chwarae â nhw. Maent yn sgwrsio'n hyderus am ba weithgareddau yr hoffent ymgymryd â nhw. Er enghraifft, roedd rhai o'r plant am wneud gwaith sialc ond roedd eraill yn gyffrous ynghylch chwarae yn y tŷ, gan gynnau a diffodd eu lamp. Yn ystod amser cinio, gwnaethant ofyn i'r staff eu helpu i agor pecynnau a daeth y staff i helpu ar unwaith.

Mae'r plant yn gyfarwydd â'r drefn o ddydd i ddydd, ac mae hyn yn rhoi ymdeimlad o sicrwydd iddynt. Er enghraifft, atgoffodd un o'r plant aelod o'r staff nad oedd wedi golchi ei ddwylo ar ôl bwyta. Maent yn gyfforddus yn mynd at y staff i eistedd ar eu glin i gael maldod neu i orffwys ychydig cyn dychwelyd i chwarae â'u ffrindiau.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol ac yn helpu ei gilydd i dacluso eu teganau yn ofalus. Mae'r plant yn cydweithredu ac yn gwrando ar gyfarwyddiadau'n dda. Er enghraifft, helpodd un o'r plant aelod o'r staff i gasglu'r cyfarpar ysbyty a ddefnyddir i chwarae rôl ar ôl chwarae. Maent yn gwneud ffrindiau. Dywedodd un o'r plant wrthym ei fod yn hoffi dod i'r lleoliad er mwyn bod gyda'i ffrindiau, gan bwyntio atynt, o'r dosbarth meithrin bore ac fe'u gwelwyd yn chwarae'n hapus â'i gilydd â phob un yn cymryd ei dro i fod yn amyneddgar.

Mae'r plant yn weithgar ac yn dysgu'n effeithiol drwy chwarae. Er enghraifft, mae pawb yn wên o glust i glust ac yn llawn hwyl wrth iddynt esgus coginio yn eu cegin. Mae rhai o'r plant yn mwynhau chwarae â thoes chwarae gan aros bob hyn a hyn i arogleuo'r blodau lafant.

Mae'r plant yn datblygu eu hannibyniaeth yn gadarnhaol. Mae'r plant yn dilyn eu diddordebau eu hunain, er enghraifft, mae plentyn yn mwynhau chwarae'n dawel gan eistedd gydag aelod o'r staff. Mae'r plant yn dewis offerynnau cerdd gan greu rhythmau a chanu. Maent yn dysgu i wneud pethau drostynt eu hunain gydag anogaeth gadarnhaol gan yr unigolion hynny sy'n gofalu amdanynt.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae'r staff yn deall eu rôl a'u cyfrifoldebau o ran cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae ganddynt ddealltwriaeth briodol o'r gweithdrefnau diogelu ac maent yn rhoi'r polisïau ar waith yn dda. Mae'r hyfforddiant cymorth cyntaf a diogelu yn gyfredol ac mae'r staff yn cwblhau cofnodion damweiniau a digwyddiadau yn gywir ac yn hysbysu'r rhieni. Maent yn annog y plant i olchi eu dwylo ac mae hyn yn eu helpu i ddatblygu eu harferion hylendid personol yn effeithiol. Mae'r staff yn hyrwyddo arferion iach yn dda ac yn rhoi byrbryd iach i'r plant. Oherwydd glaw trwm iawn, nid oedd cyfle i'r plant chwarae yn yr awyr agored, ond mae digon o adnoddau yn yr ardal chwarae i feithrin sgiliau'r plant yn effeithiol. Mae'r staff yn cynnal ymarferion tân er mwyn sicrhau bod pawb yn gwybod beth i'w wneud os bydd yn rhaid iddynt adael y safle mewn argyfwng.

Mae'r staff yn rhyngweithio'n gadarnhaol, gan ddangos cynhesrwydd a charedigrwydd. Maent yn ymateb yn gyson i'r plant; maent yn gwrando ar ddewisiadau a cheisiadau'r plant ac yn eu parchu.
Mae'r staff yn canolbwyntio'n dda ar ddiddordebau'r plant, eu hanghenion a'u datblygiad unigol. Er enghraifft, rhoddodd y staff gyfle i blentyn chwarae gêm dawelach a sgwrsio pan nad oedd am ymuno â'i ffrindiau. Maent yn hwyluso'r chwarae ac yn annog y plant i chwarae gyda'i gilydd yn dda. Maent yn goruchwylio'n effeithiol ac yn atgoffa'r plant o reolau syml, fel peidio â rhedeg yn yr ystafell chwarae. Mae'r staff yn canmol y plant yn rheolaidd am wneud yn dda, a wnaeth iddynt wenu a theimlo'n dda amdanynt eu hunain.

Mae'r staff yn annog y plant i ddysgu ac yn cynnig amrywiaeth dda o weithgareddau chwarae a phrofiadau dysgu diddorol er mwyn meithrin sgiliau ac annog y plant i ddod yn annibynnol. Maent yn gofyn i'r plant ddefnyddio eu synhwyrau i arogleuo'r blodau lafant ac i ystyried sut maent yn teimlo pan gânt eu cymysgu â thoes. Mae'r staff yn gwahodd y plant i holi ac ateb llawer o gwestiynau er mwyn datblygu eu chwilfrydedd a'u sgiliau meddwl. Maent yn rhoi cymorth mewn ffordd anffurfiol a hamddenol iawn. Er enghraifft, helpodd aelod o'r staff un o'r plant i ddal ei lamp gan ddangos y switsh iddo a oedd oddi tano er mwyn gallu ei gynnau. Mae'r staff yn dechrau cynllunio ar gyfer defnyddio'r cwricwlwm newydd i Gymru ac yn olrhain cynnydd y plant yn briodol.

## Yr Amgylchedd — Da

Mae'r bobl sy’n rhedeg y lleoliad yn darparu amgylchedd diogel a glân lle gall y plant chwarae a dysgu mewn ffordd gadarnhaol. Caiff asesiadau risg eu cwblhau'n briodol gan nodi'r risgiau posibl i'r plant a'r mesurau sydd ar waith i reoli'r risgiau hyn. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gwneud yn siŵr bod pawb yn deall eu cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelwch a llesiant y plant. Mae'r trefniadau glanhau a'r arferion hylendid yn dilyn canllawiau cyfredol. Maent yn sicrhau bod gwybodaeth glir ar gael i bawb am sut i ymdrin ag argyfyngau.

Mae cynllun yr ardal chwarae yn hyrwyddo annibyniaeth y plant. Mae'r ardaloedd hyn wedi'u trefnu mewn ffordd ddeniadol ac wedi'u labelu er mwyn i'r plant allu mynd ati i archwilio a gwneud eu dewisiadau eu hunain am yr eitemau y maent am chwarae â nhw. Mae digon o deganau ac adnoddau sy'n addas ar gyfer yr oedrannau sy'n cael gofal ac mae digon o ddeunyddiau naturiol ar gael fel pren a thoes.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gwneud yn siŵr bod y gweithgareddau crefft a gynigir i'r plant yn creu ymdeimlad o berthyn. Maent yn gwella ymwybyddiaeth y plant o'r byd o'u cwmpas er mwyn dysgu am y gymdeithas ehangach. Er enghraifft, mae doliau, ffigyrau byd bach a gemau sy'n dangos pobl o wahanol ddiwylliannau. Mae cyfleoedd da i'r plant ymarfer defnyddio eu synhwyrau drwy chwarae dŵr, gweithgareddau crefft a chanu offerynnau cerdd.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth Da

Mae gan y bobl sy’n rhedeg y lleoliad ddatganiad o ddiben cynhwysfawr, sy'n rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt i'r rhieni am yr hyn y mae'r lleoliad yn ei gynnig. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith ac roeddent yn cael eu diweddaru. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn deall eu cyfrifoldeb i hyrwyddo'r Gymraeg a chaiff Cymraeg sylfaenol ei hannog.

Mae'r adroddiad sy'n adolygu ansawdd y gofal yn gynhwysfawr ac mae'n cynnwys sylwadau a gasglwyd gan yr unigolion hynny sy'n defnyddio'r lleoliad. Mae'r adroddiad yn adolygu'r gwelliannau a wnaed a'r weledigaeth ar gyfer y dyfodol. Maent yn frwdfrydig o ran creu canlyniadau gwell i'r plant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod gwiriadau datgelu a gwahardd yn gyfredol a bod yr hyfforddiant perthnasol diweddaraf wedi'i gwblhau. Mae'r unigolyn cyfrifol wedi gwneud yn siŵr ei bod wedi casglu'r holl wybodaeth ynghyd yn ffeiliau'r staff ac yn y cofnodion ar gyfer plant unigol. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rôl a bod sesiynau goruchwylio anffurfiol yn cael eu cynnal. Fodd bynnag, nid oes unrhyw gofnod ysgrifenedig o gyfarfodydd goruchwylio unigol â'r staff er mwyn monitro eu perfformiad a'u datblygiad proffesiynol. Mae'r staff yn cael arfarniad blynyddol a chaiff y trafodaethau hyn eu cofnodi.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi meithrin partneriaethau effeithiol. Mae ganddynt bolisi a gweithdrefn ar gyfer cynnwys y rhieni. Mae'n ddogfen dda sy'n nodi sut mae'r lleoliad yn bwriadu ymgysylltu â rhieni a'u cynnwys yn natblygiad dysgu drwy chwarae eu plentyn. Roedd y rhieni yn canmol y gofal a ddarperir gan y staff. Mae'r trefniadau ymgysylltu â'r ysgol yn gadarnhaol ac mae staff o'r ysgol yn ymweld â'r lleoliad ac yn helpu yno. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod y plant yn gyfarwydd â staff yr ysgol i'w paratoi i drosglwyddo i'r dosbarth meithrin.

**Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

A1 Parhau i ddatblygu dogfennaeth cynllunio ac asesu i adlewyrchu'r cwricwlwm newydd i Gymru

A2 Sicrhau y caiff pob sesiwn goruchwylio unigol anffurfiol ei chofnodi.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad Cyhoeddi** 02/12/2022